Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership Board



# Dysgwch fwy am Lwybr Safonau Gofal Dementia Cymru

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg yn dod â pobl gyda'i gilydd i wella iechyd, gofal cymdeithasol a lles ar draws Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful.

www.ctmregionalpartnershipboard.co.uk/cy/ymgyrch-dementia

GWELLIANT CYMRU | IMPROVEMENT CYMRU



# Mae yna 20 o safonau edrych ar sut ellir gwella gofal a chefnogaeth i bobl sy'n byw gyda dementia, gofalwyr di-dâl a'u teuluoedd.

Mae'r safonau wedi'u rhannu yn bedwar maes gwahanol:

- **Hygyrch**
- **Ymatebol**
- **Taith**
- **Partneriaethau a Pherthnasoedd**



## Hygyrch

**Mae'r pedair safon yma'n ymwneud â sut rydym yn gwneud pethau'n fwy hygyrch i bobl.**

**Maen nhw'n cynnwys:**

1. Cynnwys cymunedau i wneud y lle maen nhw'n byw yn fwy cyfeillgar i ddementia.
2. Addasu gwasanaethau i gwrdd ag anghenion pobl - gall hyn gynnwys cyfieithu gwybodaeth a newid amseroedd apwyntiadau i gyd-fynd ag anghenion cleifion a'u teuluoedd.
3. Sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn rhannu gwybodaeth gyda'i gilydd am ddiagnosis pobl, fel eu bod yn gallu cael y gofal a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt.
4. Adnabod arwyddion cynnar dementia mewn pobl sydd ag anabledd dysgu, fel y gallant gael y gefnogaeth gywir yn gynnar.

## Ymatebol

**Mae'r pedair safon yma'n cysylltu â sut mae gwasanaethau'n ymateb i bobl ac yn eu cefnogi nhw.**

**Maen nhw'n cynnwys:**

5. Bydd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cwblhau nifer o brofion cyn anfon rhywun i'r gwasanaethau sy'n helpu i wneud diagnosis o ddementia.
6. Bydd gwasanaethau cof yn trefnu nifer o weithgareddau'n cynnwys profion, trafodaethau gydag aelodau'r teulu, sganiau ac ati, i gefnogi diagnosis person o fewn 12 wythnos o'r atgyfeiriad.
7. Yn ystod y cyfnod diagnosis bydd pobl yn cael cynnig cefnogaeth emosiynol gan weithiwr proffesiynol.
8. Cefnogaeth ar gyfer pobl sydd â namau gwybyddol ysgafn yn cynnwys cadw mewn cysylltiad bob chwe mis.

## Taith

**Mae'r 10 safon yma'n ymwneud â gwneud y pethau sy'n digwydd ar ôl diagnosis yn well i bobl.**

**Maen nhw'n cynnwys:**

9. Rhoi cyngor a gwybodaeth am iechyd corfforol da.
10. Dysgu, addysg a hyfforddiant sgiliau ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia, eu gofalwyr a'u teuluoedd.
11. Gwneud yn siŵr bod profiad unigolyn o fod yn yr ysbyty y gorau y gall fod.
12. Creu rôl i rywun gefnogi pobl ar ôl cael diagnosis i'w helpu i gael y pethau sydd eu hangen arnynt (Cysylltwr Dementia).
13. Gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu cyrchu gwasanaethau arbenigol y gallai fod eu hangen arnynt, yn cynnwys pethau megis therapi iaith a lleferydd a therapi galwedigaethol.
14. Darparu adolygiadau iechyd corfforol wyneb yn wyneb i bobl sy'n byw gyda dementia.
15. Helpu'r unigolyn gyda dementia i gynllunio ar gyfer y cyfnod hwyrach mewn bywyd.
16. Cefnogi ysbytai, cartrefi gofal a charchardai i ddarparu'r gofal dementia gorau y gallant.
17. Gwneud yn siŵr bod y staff sy'n cefnogi pobl gyda dementia yn cael yr hyfforddiant gorau posib.
18. Helpu i gefnogi pobl i fynd i apwyntiadau trwy fod yn hyblyg yn y ffordd mae apwyntiadau'n cael eu darparu.

## Partneriaethau a Pherthnasoedd

**Mae'r ddwy safon yma'n gwneud yn siŵr bod gwasanaethau'n cydweithio i ddarparu'r gofal a'r gefnogaeth gorau posib.**

**Maen nhw'n cynnwys:**

19. Gwneud yn siŵr bod popeth yn cael ei gydlynu os oes rhaid i unigolyn gyda dementia symud o un lle i'r llall e.e. symud o'r ysbyty i gartref.
20. Sicrhau ein bod yn casglu gwybodaeth yn iawn fel ein bod yn gallu gweld yn lle mae angen i ni wella pethau.



**Cofrestrwch i gymryd rhan yn ein gwaith.**

---

**Mae copi o'r safonau llawn ar gael yma.**